# CYNGOR SIR CEREDIGION

# Cwestiynau Cyffredin

---

**CYNNWYS**


1. Ynglŷn â'r Cynllun a'r Trefniadau Aberthu Cyflog .................................... 2
2. Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ......................................................... 4
3. Archebu Car ..........................................................................................5
4. Gadael y Cynllun yn gynnar ................................................................. 6
5. Absenoldeb Hirdymor a Newidiadau mewn Contractau Cyflogaeth ............ 6
6. Yswiriant Car ........................................................................................ 7
7. Pan Ddaw'r Cytundeb i Ben ....................................................................8
8. Cwestiynau Cyffredinol ......................................................................... 8

# 1. Ynglŷn â'r Cynllun a'r Trefniadau Aberthu Cyflog

### 1.1 Beth yw aberthu cyflog a pham ddylwn ei ystyried fel ffordd o gael car newydd sbon?

Trwy drefniant aberthu cyflog rydych chi'n ildio'r hawl i dderbyn rhan o'ch cyflog gros fel y'i pennir yn eich cytundeb cyflogaeth, ac yn gyfnewid fe gewch chi fudd mewn da – yn yr achos hwn, car newydd sbon. Aberthir y cyflog cyn tynnu Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol, sy'n golygu eich bod yn arbed arian.

Os byddwch chi'n cael car drwy'r Cynllun Buddion Ceir fe gewch chi bopeth sydd ei angen i yrru ar y ffordd, oll am bris sefydlog bob mis. Byddwch hefyd yn medru elwa ar brisiau rhad iawn gan mai cynllun y Cyngor ydyw, ac ni fydd arnoch angen cael gwirio'ch credyd na thalu blaendal.

### 1.2 Beth sy'n rhan o'r cynllun?

- Car newydd sbon o'ch dewis
- Cynnal a chadw'r cerbyd, gan gynnwys ei drin yn y garej, batris, egsôsts a theiars (ac eithrio teiars gaeaf) yn ôl traul arferol. Nid yw hynny'n cynnwys trwsio unrhyw ddifrod i'r cerbyd na diweddaru systemau llywio â lloeren
- Yswiriant car hollgynhwysol i chi, gan gynnwys teithio busnes. Mae hyn hefyd yn yswirio gyrwyr eraill at ddibenion cymdeithasol, domestig a phleser yn unig, oni wneir cais fel arall
- Sicrwydd rhag unrhyw dâl cosb o ganlyniad i adael y cynllun yn gynnar am eich bod yn gadael eich swydd ac yn dychwelyd y car oherwydd ymddiswyddiad, colli gwaith, marwolaeth a cholli trwydded am resymau meddygol
- Treth y cerbyd bob blwyddyn
- Cymorth wrth ymyl y ffordd (ger eich cartref, rhywle yn y Deyrnas Gyfunol ac yn Ewrop)
- Car dros dro pan nad yw'ch car chi'n gweithio (os ydych chi'n dewis hynny).

### 1.3 Beth sydd ddim yn rhan o'r cynllun?

- Tanwydd
- Olew, hylif iro, hylif golchi sgrîn a hylif egsôst diesel os oes eu hangen cyn y tro nesaf y caiff y car ei drin yn y garej
- Difrod i'r cerbyd nad yw'n dod o dan y polisi yswiriant
- Y tâl terfynu os penderfynwch nad oes arnoch chi eisiau'r car mwyach
- Tâl dros ben yr yswiriant, os bydd damwain, sy'n daladwy pan wneir gwaith trwsio ar eich car
- Tâl dros ben o ran milltiredd, os byddwch yn gyrru am fwy o filltiroedd na'r hyn a gytunwyd
- Methiant mecanyddol lle mae'r gyrrwr ar fai
- Cerbydau rhent pan na fydd eich car yn gweithio, oni fydd y cwmni yswiriant yn darparu un (ac oni bai'ch bod wedi dewis yr opsiwn i gael car dros dro).

### 1.4 Beth yw Budd mewn Da a sut gaiff hwn ei dalu?

Ceir cwmni yw'r holl geir sy'n rhan o'r cynllun, ac felly'n cyfrif fel Budd mewn Da os caniateir i weithiwr ei ddefnyddio at ddibenion preifat.

Gyda cheir ag allyriadau isel dros ben, sy'n golygu nad ydynt yn allyrru mwy o garbon deuocsid na 75 gram bob cilometr, byddwch yn talu treth ar y Budd mewn Da yn unol â'i werth at ddibenion ffurflen P11D (pris rhestr gan gynnwys ychwanegion a TAW, ond heb y tâl cofrestru am y flwyddyn gyntaf a threth y cerbyd), wedi'i luosi â'r gyfradd Budd mewn Da sy'n seiliedig ar yr allyriadau carbon deuocsid

a’r math o danwydd a ddefnyddir. Yna lluosir hynny â’ch band treth (er enghraifft, 20%, 40%) i gyfrifo swm y dreth sydd i’w dalu.

Gyda cheir ag allyriadau mwy na 75 gram bob cilometr, cyfrifir y budd trethadwy naill ai ar sail y Dreth Incwm y byddwch yn ei arbed o’ch cyflog gros, neu werth y Budd mewn Da (fel y’i cyfrifir uchod), p’un bynnag sydd fwyaf.

Mae system Tusker yn un syml a gallwch fynd ar-lein i gael cyfrifiad awtomatig o swm y dreth i’w dalu, a chaiff y swm hwnnw ei gynnwys yn y gost bob mis a gynigir ar gyfer pob car.

Tynnir Buddion mewn Da o’ch cyflog drwy addasu eich côd treth.

### 1.5 Os gallaf fynd i mewn i’r wefan, ydy hynny’n golygu mod i’n gymwys i ymuno â’r cynllun?

Nac ydy. Bydd yn rhaid i’r Cyngor wirio eich bod yn gymwys a rhoi cymeradwyaeth cyn i chi fedru archebu car drwy’r cynllun. Dyma’r meini prawf:

- Mae’n rhaid eich bod yn un o gyflogeion parhaol Cyngor Sir Ceredigion
- Mae’n rhaid bod eich cyflog gros, ar ôl tynnu’r holl fuddion aberthu cyflog, yn fwy na’r Isafswm Cyflog Cenedlaethol tra pery’r Cytundeb Aberthu Cyflog
- Ni ddylid cynnwys unrhyw dâl comisiwn, bonws, goramser nac unrhyw daliadau ychwanegol eraill y byddwch yn eu derbyn wrth nodi eich cyflog gros ar y wefan, oni bai fod y tâl ychwanegol yn rhan o’ch contract a’ch bod yn sicr o’i gael
- Mae’n rhaid ichi fod wedi cwblhau eich cyfnod prawf yn eich swydd
- Mae’n rhaid ichi beidio â bod wedi cael unrhyw rybuddion o dan bolisi disgyblu’r Cyngor
- Ni ddylech fod yn destun unrhyw adolygiadau ffurfiol o’ch gallu
- Os mai cytundeb cyfnod penodol sydd gennych, mae’n rhaid ei fod yn para’n hwy na’r cytundeb aberthu cyflog.

### 1.6 A fydd trefniant aberthu cyflog yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau’r wladwriaeth rwy’n eu derbyn?

Gallai trefniant aberthu cyflog effeithio ar eich hawl i dderbyn rhai o fudd-daliadau’r wladwriaeth. Bydd arnoch angen ystyried y materion canlynol cyn llofnodi cytundeb aberthu cyflog:

- Cyfraniadau pensiwn (yn enwedig os ydych chi’n dynesu at yr oedran ymddeol a’ch bod yn rhan o gynllun pensiwn cyflog terfynol). Ar yr amod eich bod yn talu’r hyn sy’n ofynnol o ran Yswiriant Gwladol, ni ddylai’r cynllun hwn effeithio ar eich pensiwn sylfaenol gan y wladwriaeth. Os ydych chi wedi bod yn aelod o’r Cynllun Buddion Ceir ers cyn mis Ebrill 2016, gallai gael ychydig o effaith ar Bensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth
- Eich hawl i fuddion sy’n seiliedig ar gyfraniadau, fel Pensiwn y Wladwriaeth
- Eich hawl i fuddion sy’n seiliedig ar enillion, fel Lwfans Mamolaeth neu Dâl Mamolaeth Statudol
- Eich hawl i daliadau sy’n ymwneud â’r gwaith, fel Tâl Salwch Statudol.

Gallai trefniant aberthu cyflog gael effaith ar eich hawl i fudd-daliadau a chredydau treth, a dylech ystyried hynny’n ofalus cyn bwrw ymlaen. Fe gewch gyngor drwy ffonio’r Llinell Gymorth Credydau Treth ar 0345 300 3900.

Gallai hefyd effeithio ar swm eich ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr, gan fod y rheiny’n seiliedig ar enillion. Wrth ostwng eich cyflog gros bydd eich ad-daliadau’n dod i lawr hefyd, a gallai hynny olygu y

bydd yn cymryd mwy o amser ichi dalu'r benthyciad yn ôl. Am fwy o wybodaeth ewch i wefan Cyllid a Thollau:

http://www.hmrc.gov.uk/students/reps_how_when_howmuch_6_1.htm

a gwefan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr:

http://www.slc.co.uk

### 1.7 Pwy sydd biau'r car?

Tusker sydd biau'r car ac mae'r car wedi'i gofrestru i'r cwmni hwnnw. Drwy'r cytundeb y mae'r Cyngor wedi ei lofnodi â'r cwmni, mae Tusker yn darparu cerbydau i weithwyr cymwys. Gwneir y Cytundeb Aberthu Cyflog rhyngoch chi a'r Cyngor yn unig.

## 2. Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

### 2.1 Pa effaith a gaiff y Cynllun Aberthu Cyflog ar fy Mhensiwn?

Y tâl a ddefnyddir i gyfrifo'ch buddion pensiwn yw'r tâl sy'n weddill ar ôl tynnu'r swm a aberthir, ac felly bydd llai o bensiwn yn cronni gennych tra pery'r cytundeb. Ers mis Ebrill 2014, mae'ch pensiwn o dan y Cynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hadbrisio yn seiliedig ar eich tâl pensiynadwy am y flwyddyn o 1 Ebrill i 31 Mawrth.

Os oeddech chi'n aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyn mis Ebrill 2014, yna byddwch hefyd yn cael buddion drwy'r rhan Cyflog Terfynol o'r cynllun. Y cyflog terfynol a ddefnyddir i gyfrifo'r buddion hyn fel arfer yw'ch cyflog yn y 365 diwrnod cyn ichi ymddeol, ac os ydych chi wedi bod yn cymryd rhan yn y cynllun Aberthu Cyflog yn ystod y flwyddyn honno, yna bydd eich buddion yn seiliedig ar eich cyflog ar ôl tynnu'r swm a aberthir, a bydd yr aberth hefyd yn effeithio ar eich buddion cyflog terfynol. Fodd bynnag, o dan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae modd defnyddio'r tâl o unrhyw un o'r ddwy flynedd cyn y flwyddyn ymadael, os bydd un yn fwy na'r llall.

### 2.2 Pa effaith a gaiff y Cynllun Aberthu Cyflog ar fy Mudd-dal Marwolaeth?

Os byddwch chi farw yn ystod y trefniant aberthu cyflog, yna defnyddir eich cyflog ar ôl tynnu'r swm a aberthir i gyfrifo'r budd-daliadau marwolaeth, a byddai'r grant marwolaeth ac unrhyw fudd-daliadau i ddibynyddion hefyd yn seiliedig ar y symiau gostyngol o ran Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hadbrisio a Chyflog Terfynol.

### 2.3 Oes modd imi adennill y pensiwn a gollwyd?

Oes – gallwch adennill eich pensiwn drwy dalu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol.

Gallwch hefyd dalu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol er mwyn cynyddu eich buddion. Dylid nodi na fydd y cyflogwr yn cyfrannu at Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol na Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol.

Fe gewch chi fwy o wybodaeth am gynyddu eich buddion pensiwn drwy fynd i www.lgpsmember.org neu gysylltu â'r Tîm Pensiynau.

## 3. Archebu Car

### 3.1 Rwy'n aberthu cyflog ar gyfer buddion eraill, faint o gyflog ddylwn ei nodi ar y wefan?

Dylech bob amser roi'ch cyflog sylfaenol (cyn tynnu'r dreth), ac eithrio unrhyw daliadau ychwanegol a gewch chi, oni bai fod y rheiny'n rhan o'ch cytundeb ac wedi'u gwarantu. Os ydych chi'n gweithio'n rhan-amser, rhowch eich cyflog rhan-amser a nodi faint o oriau'r ydych yn eu gweithio yn y bocs '*weekly part-time hours*'.

### 3.2 Os na fedraf weld y car yr hoffwn ei gael ar y wefan, neu ddim ceir o gwbl, beth ddylwn ei wneud?

I ddechrau, edrychwch ar allyriadau carbon deuocsid y car ar wefan y gwneuthurwr. Os yw'r allyriadau'n dod o fewn cyfyngiadau'r cynllun, e-bostiwch fanylion llawn y cerbyd i Dîm Cyswllt Tusker ar eeteam@ss4c.com. Os na fedrwch chi weld y car ar y wefan, fel arfer mae'n golygu bod y cwmni'n aros am fwy o wybodaeth gan y gwneuthurwr, ac felly dylai fod modd i'r Tîm Cyswllt roi pris ichi.

Os na fedrwch chi weld unrhyw geir o gwbl, efallai y byddai'r taliad yn mynd â'ch cyflog gros islaw'r isafswm y mae'r Cyngor wedi'i bennu. I gadarnhau, ewch ar-lein i anfon neges i Dîm Cyswllt Tusker ac fe gewch ateb yn syth. Fel arall, ffoniwch 0333 400 7431 neu e-bostiwch eeteam@ss4c.com.

### 3.3 Fe hoffwn i archebu car drwy'r cynllun, ond mae gen i gerbyd yn barod sydd angen ei werthu – pryd ddylwn ei roi ar werth?

Er y bydd Tusker yn rhoi rhyw syniad ichi faint o amser y bydd yn ei gymryd i archebu'ch car, mae'n bosib o bryd i'w gilydd y bydd y gwneuthurwr yn newid y dyddiad, ac ni all Tusker wneud dim am hynny. Os nad oes gennych chi unrhyw ffordd arall o deithio, dylech gadw'ch cerbyd presennol tan ichi gael yr un newydd. Fel arall, cysylltwch â Tusker i holi am y ceir *StopGap*.

### 3.4 Rydw i wedi archebu'r car, pryd fydd fy nghyflog yn dechrau mynd i lawr?

Bydd Tusker yn rhannu'r wybodaeth berthnasol â'r Cyngor o ran y gostyngiad yn eich cyflog, ar ôl ichi gael y car. Yna bydd eich cyflog yn mynd i lawr o'r dyddiad cyflog nesaf. Gan ddibynnu ar yr union ddyddiad y cewch chi'r car a'r dyddiad y mae'r Cyngor yn gwneud y gyflogres, efallai y gwelwch chi fod y gostyngiadau fis ar ei hôl chi. Ni fydd hynny'n effeithio ar nifer y rhandaliadau (gallwch ddewis cyfnod o 24 wythnos, 30, 36, 42 neu 48), ond ni fydd y cyfnod talu'n cyd-fynd yn union â'r cyfnod y bydd y car ar gael i chi.

### 3.5 Archebu car diesel – gwybodaeth bwysig am Hidlyddion Gronynnau Diesel.

Dylid nodi fod ceir diesel bellach yn dod gyda Hidlyddion Gronynnau, sydd fel arfer yn addas ar gyfer gyrwyr sy'n gyson yn gyrru rhwng 40 a 50 mya neu'n gynt, a hynny am o leiaf 10-15 o funudau. Byddai'n syniad da ichi holi gwerthwr ceir neu'r gwneuthurwr i gadarnhau bod eich arferion gyrru chi'n addas **cyn** ichi archebu cerbyd diesel, i wneud yn siŵr eich bod yn bodloni gofynion y gwneuthurwr o ran Hidlyddion Gronynnau Diesel.

## 4. Gadael y Cynllun yn Gynnar

### 4.1 Beth os rwy'n penderfynu nad oes arnaf eisiau'r cerbyd mwyach?

Rydych chi'n ymrwymo i gadw'r cerbyd am y cyfnod rydych chi'n ei ddewis. Os penderfynwch chi nad oes arnoch eisiau'r cerbyd mwyach, gallwch ofyn ar unrhyw adeg am amcangyfrif o'r pris ar gyfer terfynu'r cytundeb yn gynnar, a chi fydd yn gyfrifol am dalu'r pris hwnnw.

### 4.2 Beth os rwy'n ymddiswyddo?

Os byddwch chi'n hysbysu'r Cyngor eich bod yn dymuno ymddiswyddo yn y chwe mis cyntaf ar ôl ichi gael eich cerbyd, neu os byddwch chi'n ymddiswyddo ac yn ymadael â'r Cyngor heb roi rhybudd yn y chwe mis cyntaf ar ôl ichi gael y cerbyd, bydd yn rhaid ichi dalu i adael y cynllun yn gynnar.

Os ydych chi'n gwybod y byddwch chi'n ymadael â'ch swydd cyn y daw'r cytundeb i ben, yna ni ddylech drefnu cael cerbyd drwy'r cynllun.

Os byddwch chi'n ymddiswyddo ac yn ymadael â'r Cyngor ar ôl i'r chwe mis cyntaf fynd heibio, yna ni fydd yn rhaid ichi dalu am adael y cytundeb yn gynnar.

*Dylid nodi nad yw'r tâl am adael y cynllun yn gynnar yn seiliedig ar y dyddiad y byddwch yn ymadael, ond yn hytrach mae'n seiliedig ar y dyddiad y byddwch yn hysbysu'r Cyngor eich bod yn dymuno ymddiswyddo.*

## 5. Absenoldeb Hirdymor a Newidiadau mewn Contractau Cyflogaeth

### 5.1 Beth os rwy'n mynd ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu, neu os rwy'n absennol o'r gwaith am gyfnod hir?

Ni fydd cymryd rhan yn y Cynllun Buddion Ceir yn mynd â'ch cyflog gros islaw'r isafswm statudol yn ystod cyfnodau o absenoldeb â thâl oherwydd mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu, a byddwch yn dal i fedru defnyddio'ch cerbyd. Mewn achosion fel hyn bydd yn rhaid ichi roi copi o'ch ffurflen MAT B1 i'r Cyngor, neu'r llythyr sy'n eich cymeradwyo i fabwysiadu.

Os byddwch chi'n absennol o'r gwaith a bod eich cyflog naill ai'n mynd islaw'r isafswm statudol neu'ch bod yn cael dim tâl mewn unrhyw fis penodol, yna caiff y Cytundeb Aberthu Cyflog ei ohirio am y mis hwnnw. Pan fyddwch chi'n dychwelyd i'r gwaith bydd y Cytundeb yn ailgychwyn ac yn parhau am y cyfnod a gytunwyd. Gallai hynny olygu bod y trefniant aberthu cyflog yn parhau ar ôl ichi ddychwelyd y cerbyd. Mewn achosion felly, bydd arnoch angen rhoi copi o'ch nodyn ffitrwydd i'r Cyngor.

### 5.2 Rwy'n ystyried gweithio llai o oriau, sut fyddai hynny'n effeithio ar y trefniant aberthu cyflog?

Ni allwch chi aberthu swm a fyddai'n mynd â'ch cyflog islaw'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Pe byddech chi'n gostwng eich oriau gweithio byddai'n rhaid i'r Cyngor ail-asesu a ydych chi'n gymwys i gymryd rhan yn y cynllun. Os bydd gweithio llai o oriau'n golygu bod eich cyflog yn mynd yn is na'r Cyflog Byw Cenedlaethol, bydd y Cyngor yn gofyn ichi ddychwelyd y car a bydd yn rhaid ichi dalu i ymadael â'r cynllun yn gynnar.

## 6. Yswiriant Car

### 6.1 Beth os yw'r cerbyd mewn damwain, a bod y cwmni yswiriant yn dweud nad yw'n werth ei drwsio?

Os bydd colled lwyr ar yr yswiriant (damwain, tân neu ladrad) fe gewch eich diogelu o ran y gwahaniaeth rhwng setliad y cwmni yswiriant a'r tâl i adael y Cytundeb Aberthu Cyflog yn gynnar. Bydd angen ichi dalu'r tâl dros ben, ond gallech gael hwnnw'n ôl os nad chi oedd ar fai am y ddamwain ac os oes modd hawlio oddi ar bolisi yswiriant rhywun arall.

Darperir car benthyg am hyd at 14 o ddiwrnodau, neu hyd oni chwblheir yr hawliad. Fe gewch fanylion am hyn yn eich dogfennau yswiriant. Os hoffech chi archebu cerbyd arall drwy'r cynllun, efallai y bydd modd ichi gael car *StopGap* wrth ichi aros am gerbyd newydd. Dylid nodi y bydd y Cyngor yn dal i gymryd y taliadau o'ch cyflog hyd nes bod y cwmni yswiriant yn datgan colled lwyr o ran y cerbyd.

### 6.2 Beth os rwy'n hawlio ar y polisi ar sawl achlysur?

Gallwch hawlio lle'r oeddech chi ar fai ddwywaith yn y deuddeg mis cyntaf, a theirgwaith yn y pedwar mis ar hugain cyntaf, heb i hynny gael effaith ar eich premiwm yswiriant yn y drydedd flwyddyn. Os ydych chi'n hawlio mwy na hynny lle'r oeddech chi ar fai, gallai'ch premiwm gynyddu yn y blynyddoedd dilynol.*

Os byddwch chi'n hawlio mwy na dwywaith yn y deuddeg mis cyntaf neu fwy na theirgwaith yn y pedwar mis ar hugain cyntaf, lle'r oeddech chi ar fai, fe gewch chi fil yn uniongyrchol am unrhyw gynnydd yn y premiwm.

* *Dylid nodi na fydd eich premiwm yn newid o dan unrhyw amgylchiadau tan ddyddiad adnewyddu'r polisi. Sefydlir pob polisi am gyfnod o ddeuddeg mis.*

### 6.2 Oes unrhyw gyfyngiadau o ran grwpiau yswiriant?

- Gyrwyr 18 i 19 oed – grwpiau 1 i 11
- Gyrwyr 20 oed – grwpiau 1 i 16
- Gyrwyr 21 oed – grwpiau 1 i 21
- Gyrwyr 22 i 24 oed – grwpiau 1 i 29
- Gyrwyr 25 i 29 oed – grwpiau 1 i 35
- Gyrwyr 30 i 75 oed – grwpiau 1 i 49

Gallai fod modd ichi gael yswiriant y tu allan i'r grwpiau uchod. Mae Tîm Cyswllt Tusker ar gael i drafod eich dewisiadau, felly ffoniwch 0333 400 7431 neu e-bostiwch eeteam@ss4c.com.

### 6.3 Oes modd i bobl sy'n dysgu gyrru fod ar yr yswiriant?

Gallai fod modd i bobl sy'n dysgu gyrru fynd ar yr yswiriant hefyd. Ffoniwch Dîm Cyswllt Tusker ar 0333 400 7431 neu e-bostiwch eeteam@ss4c.com a gallant gysylltu â'r cwmni yswiriant i weld beth sy'n bosib.*

* *Os oes modd ichi ychwanegu enw rhywun sydd â thrwydded dros dro i'r polisi yswiriant, yna bydd yn rhaid ichi hysbysu Tusker yn ddiymdroi pan fydd y person hwnnw'n pasio'r prawf gyrru. Ni fydd y gyrrwr wedi'i yswirio i yrru'r car ar ei ben ei hun hyd oni chaiff yr yswiriant ei ddiweddaru.*

## 7. Pan ddaw'r Cytundeb i ben

### 7.1 Beth fydd yr opsiynau imi pan ddaw'r cytundeb i ben?

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dewis cael car newydd drwy'r cynllun pan ddaw'r cytundeb i ben, ond bydd Tusker yn cysylltu â chi chwe mis ymlaen llaw i drafod eich opsiynau.

Gallwch ddychwelyd y car i Tusker a chael un newydd drwy'r un cynllun (fe gewch chi'r car newydd ar yr un pryd â dychwelyd yr hen un).

Gallai fod modd ichi brynu'r car pan ddaw'r cytundeb i ben. Bydd Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Tusker yn medru rhoi pris ichi yn ystod deufis olaf y cytundeb.

### 7.2 Beth os yw'r cerbyd wedi'i ddifrodi erbyn diwedd y cytundeb?

Os ewch chi i'r wefan a chlicio ar y tab '*About the Scheme*' fe welwch chi ddolen gyswllt i ganllawiau'r BVRLA ar Draul a Gwisgo Derbyniol yn y rhan o'r enw '*Returning the vehicle – acceptable wear and tear damage*'. Bydd hynny'n rhoi syniad ichi o'r hyn sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol o ran traul a gwisgo pan fyddwch chi'n dychwelyd y cerbyd. Os bydd unrhyw ddifrod y credir ei fod yn annerbyniol, rhoddir anfoneb i'r Cyngor am y gost ar gyfer ei drwsio, a bydd yn ofynnol i chi ei dalu.

### 7.3 Beth os yw'r cerbyd wedi mynd dros y milltiroedd a gytunwyd erbyn diwedd y cytundeb?

Os gwelir bod y car wedi mynd dros y milltiroedd a gytunwyd pan gaiff ei ddychwelyd, bydd Tusker yn codi tâl am y milltiroedd dros ben. Cyfrifir y gost drwy luosi nifer y milltiroedd dros ben yr hyn a gytunwyd gyda'r gyfradd fesul milltir a bennwyd yn eich cytundeb. Bydd y Cyngor yn cael anfoneb am y gost a bydd yn ofynnol i chi ei dalu.

## 8. Cwestiynau Cyffredinol

### 8.1 Rydw i newydd symud i fyw, beth sydd arnaf angen ei wneud?

Mae'n rhaid ichi gysylltu â'r DVLA fel y gellir diweddaru eich trwydded yrru. Dylech hefyd fynd i wefan Tusker, clicio ar y tab '*My Car*' a rhoi'ch cyfeiriad newydd. Os na fyddwch chi'n rhoi gwybod i Tusker fod eich cyfeiriad wedi newid a bod angen i Tusker anfon rhywbeth atoch yn y post, mae'n bosib y bydd yn rhaid ichi dalu tâl gweinyddol ychwanegol. Dylech hefyd roi'ch cyfeiriad newydd i'r Cyngor.

### 8.2 Ar ba gyfradd y byddaf yn cael ad-daliad am danwydd os ydw i'n teithio yn y cerbyd at ddibenion gwaith?

Byddwch yn cael ad-daliadau ar y gyfradd y mae Cyllid a Thollau yn ei hargymell ar gyfer ceir cwmni. Mae hynny am fod y cerbyd yn cyfrif fel car cwmni yn hytrach nag un preifat. I weld y cyfraddau y mae Cyllid a Thollau'n eu hargymell ar hyn o bryd, ewch i'r wefan:

[www.gov.uk/government/publications/advisory-fuel-rates](www.gov.uk/government/publications/advisory-fuel-rates)